



13/11/2018

Annwyl Syr / Madam,

Ym mis Hydref, gwnaethom amlinellu ein dull gweithredu o ran cyflwyno cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant dros ddwy flynedd. Yn dilyn adborth gan y sector a chanolfannau ledled Cymru, rydym wedi penderfynu symud y dyddiad dechrau ar gyfer **cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori** o fis Medi 2019 i fis Medi 2020. Gwnaed y penderfyniad i ohirio'r cymhwyster hwn yn seiliedig ar adborth lle yr awgrymwyd y byddai'n fwy ymarferol cyflwyno'r cymhwyster hwn ar yr un pryd y caiff y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant eu haddysgu am y tro cyntaf.

Er mwyn cefnogi canolfannau a dysgwyr yng Nghymru, gallwn gadarnhau y bydd NCFE yn parhau i ddarparu cymwysterau cyfatebol nes y bydd y cynhwyster newydd yn cael ei gyflwyno:-

- Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon)
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Cymru a Gogledd Iwerddon)

Bydd dyddiadau gorffen cymwysterau'n cael eu diweddarau ar QiW yn fuan.

Os yw eich canolfan yn defnyddio cymhwyster cyfatebol i'r uchod nad yw wedi'i restru, rhowch wybod i ni yn development@qualificationswales.org.

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr blaenorol, mae gwaith diwygio cymwysterau ar y raddfa hon yn dasg fawr, ac mae angen bod yn ddiwyd ac yn ofalus wrth bennu amserlenni ar gyfer eu haddysgu am y tro cyntaf. Mae rhagor o wybodaeth am y diwygiadau, y cymwysterau sydd ar gael, eu diben ac unrhyw reoliadau yn ymwneud â'r gweithlu sy'n gysylltiedig â nhw ar gael yn:

www.cymwysteraucymru.org

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.dysguiechydagofal.cymru/ (gwefan y consortiwm o gyrff dyfarnu)

www.qiw.wales (cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru)

www.gofalcymdeithasol.cymru

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, cysylltwch â ni yn development@qualificationswales.org.

Yn gywir,

Philip Blaker



Chief Executive

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222